

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLWYD CYMRU

11 MAI 2020, 11.30AM

Cyfarfod Skype

Cofnodion

Yn bresennol

Y Cyngorydd Jane Tremlett (JT), Cyngor Sir Caerfyrddin (Cadeirydd))
Y Cyngorydd Tessa Hodgson (TH), Cyngor Sir Penfro
Jonathan Griffiths (JG), Cyngor Sir Penfro
Anna Bird (AB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Judith Hardisty (JH), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Ros Jervis (RJ), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Hazel Lloyd-Lubran (HLL), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Jill Paterson (JP), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sarah Jennings (SJ), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jake Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Estelle Hitchon (EH), Ymddiriedaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Y Cyngorydd Alun Williams (Cyng AW), Cyngor Sir Ceredigion
Alan Thomas (AT), Cynrychiolydd defnyddwyr
Cathryn Thomas (CT), Gofal Cymdeithasol Cymru
Donna Pritchard (DP), Cyngor Sir Ceredigion
Joanne Silverthorne (JS), Cynrychiolydd gofalwyr
Gaynor Toft (GT), Cyngor Sir Ceredigion
Malcolm Perret (MP), Fforwm Gofal Cymru
Hilary Jones (HJ), Cymdeithas Tai Bro Myrddin

Hefyd yn bresennol:

Kim Neyland (KN), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Jessica Rees (JR), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Cofnodion)
Martyn Palfreman (MJP), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Ymddiheuriadau

Alun Williams, Cyngor Sir Ceredigion
Maria Battle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Steve Moore, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
James Tyler, Cynrychiolydd defnyddwyr
Karen Chandler, Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
Margaret Allen, Cynrychiolydd gofalwyr
Gareth Morgans, Cyngor Sir Caerfyrddin
Jonathan Morgan, Cyngor Sir Caerfyrddin

1. Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod a rhoddodd groeso cynnes i Hilary Jones, Prif Weithredwr Bro Myrddin, a oedd wedi ymuno â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol fel cynrychiolydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

2. Ymddiheuriadau

Nodwyd yr ymddiheuriadau.

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020 a materion yn codi

Eitem 3 Comisiynydd Plant Cymru

Yn dilyn ymweliad y Comisiynydd Plant â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Ionawr ac eraill ledled Cymru dros yr hydref, roedd adroddiad ar ei chanfyddiadau o ran integreiddio gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth wedi'i ddrafftio. Fodd bynnag, roedd y broses gyhoeddi wedi'i gohirio oherwydd Covid-19. Pwysleisiodd RJ bwysigrwydd cadw iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc mewn lle blaenllaw wrth ymateb i Covid-19, o ystyried effaith debygol y pandemig ar y grŵp hwn o'r boblogaeth.

Eitem 4 Y diweddaraf am yr aelodaeth

Dywedodd MJP y byddai'r bylchau presennol yn yr aelodaeth, gan gynnwys yr angen am gynrychiolydd gofalmwr newydd ar ôl i Steven Griffiths ymddiswyddo, yn cael sylw yn ystod y misoedd nesaf.

Eitem 5 Cynllun Gaeaf

Nodwyd bod Covid-19 wedi effeithio ar adolygu'r broses o gyflawni cynlluniau gaeaf y llynedd ac y byddai cynllunio ar gyfer 2020-21 yn anochel yn rhan o gynllunio adfer yn ôl modelau ynghylch y galw tebygol o ran Covid a'r galw heb gysylltiad â Covid.

4. Covid-19: Diweddariad am Drefniadau Lywodraethu Dros Dro a Gweithgarwch Rhanbarthol

Rhoddodd MJP drosolwg i'r aelodau o lacio gofynion adrodd a gwerthuso, ynghyd â hyblygrwydd mewn perthynas â defnyddio cyllid, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau Covid-19. Roedd trefniadau llywodraethu dros dro wedi'u rhoi ar waith i hwyluso ymateb integredig i'r pandemig a phenderfyniadau cyflym lle bo angen i fynd i'r afael ag effaith yr argyfwng. Yn nodedig, roedd y rhain yn cynnwys sefydlu Grŵp Cynllunio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Covid 19 yn lle'r Grŵp Gweithredol Integredig, a oedd wedi bod yn cyfarfod yn wythnosol ers diwedd mis Mawrth ac a oedd yn cynnwys aelodau ychwanegol o Dîm Gweithredol Bwrdd Hywel Dda yn ogystal ag aelodaeth graidd y Grŵp Gweithredol Integredig. Byddai aelodau'r Bwrdd Gweithredol Integredig yn parhau i wneud penderfyniadau o fewn eu cylch gwaith ar faterion nad ydynt yn ymwneud â Covid, i'w cadarnhau gan yr Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn ôl yr angen. Y bwriad oedd parhau i gynnal cyfarfodydd

rhithwir o'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol er mwyn sicrhau bod aelodau'n cael eu harfarnu ynghylch camau gweithredu yn ymwneud ag ymateb Covid-19 ac yn gallu cyfrannu at waith cynllunio a phenderfyniadau fel y bo'n briodol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod dyraniad ychwanegol o £1.4 miliwn ar gael i'r rhanbarth i gefnogi'r gwaith o weithredu Gofynion Rhyddhau Cleifion Covid-19 Llywodraeth Cymru drwy ddatblygu trefniadau rhyddhau integredig gwell sy'n galluogi proses ddiogel a chyflymach o ryddhau cleifion o leoliadau aciwt i leoliadau cymunedol, gan gadw capasiti ymchwydd yn y sector aciwt er mwyn ymateb i'r pandemig. Roedd cynigion yn cael eu datblygu a fyddai'n cael eu dosbarthu i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gytuno arnynt yn rhithwyr. **CAM GWEITHREDU: MP**

Yn ogystal â'r cyllid rhyddhau, roedd £40m i awdurdodau lleol ledled Cymru dalu costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan ddarparwyr gofal oedolion oherwydd y pandemig a £24m i sefydliadau'r trydydd sector i helpu o ran ymateb i Covid-19.

Byddai cynllun buddsoddi refeniw Cronfa Gofal Integredig diwygiedig hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gytuno arni, a byddai rhaglen Cronfa Trawsnewid Gorllewin Cymru Iachach yn cael ei diwygio i sicrhau bod rhaglenni cyfansoddol yn cefnogi ymateb Covid-19 yn llawn.

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd hefyd am y gwyriad o £8m o raglen Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig i gefnogi'r gwaith o gynllunio, adeiladu ac adfer ysbytai maes mewn 8 safle ledled y rhanbarth, yn unol â threfniadau canolog a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd JH a allai newidiadau i raglenni a ariannwyd drwy'r Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig arwain at adennill y cyllid gan Lywodraeth Cymru. Ailadroddodd MP y byddai hyblygrwydd sylweddol o ran defnyddio cyllid i gefnogi ymateb Covid, ond nad oedd sicrwydd o hyd y byddai cyllid yn parhau ar ôl mis Mawrth 2021.

Cododd y Cynghorydd AW yr anawsterau a brofir gan lawer o gartrefi gofal a gwasanaethau meddygon teulu oherwydd diffyg cyfleusterau Skype a thechnoleg briodol i gynnal gwasanaethau a chysylltedd yn ystod y pandemig. Rhoddodd JM wybodaeth am iPads wedi'u cyflunio'n arbennig ar gyfer pobl yn y gymuned a lleoliadau eraill drwy raglen Connect (Rhaglen Trawsnewid 1) a mentrau eraill. Byddai'n bwysig ystyried fel rhanbarth a oedd adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau. Dywedodd CT fod Tec Cymru a Chymunedau Digidol Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac IMP Cymru i edrych ar ymateb digidol ar y cyd ledled Cymru.

Dywedodd AS fod Fforwm Gofal Cymru yn falch o ymateb y rhanbarth o ran cefnogi darparwyr yn yr ymateb i Covid-19 ond gofynnodd am y trefniadau ar gyfer ad-dalu costau cartrefi gofal heb breswylwyr sydd wedi cael prawf positif ond yr oedd y pandemig yn dal i effeithio arnynt, a sut y byddai materion ariannu'n cael sylw ar ôl i gyllid brys Llywodraeth Cymru ddod i ben. Dywedodd JM fod sgysiau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r olaf.

Gofynnodd GT a yw rhaglen drawsnewid Connect yn gysylltiedig â'r agenda atal codymau a chadarnhaodd MJP fod atal codymau yn un o'r llwybrau cymunedol sy'n cael eu cefnogi drwy'r rhaglen.

Gofynnodd y Cyngorydd AW am eglurhad ynghylch a fyddai'r cyllid Cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig sydd wedi'i ailddefnyddio yn ddigon i newid yr ysbytai maes yn ôl i'w gweithrediad gwreiddiol yn dilyn yr argyfwng. Dywedodd MJP, o ystyried faint o Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig a oedd ar gael, y rhagwelir diffyg o hyd; fodd bynnag, byddai trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gellid mynd i'r afael â'r diffyg.

5. Y Diweddaraaf gan Bartneriaid

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i roi diweddariad gan eu hasiantaethau perthnasol yng ngoleuni'r pandemig a'u hymatebion.

Soniodd CT am roi cardiau i weithwyr gofal cymdeithasol sy'n adnabod gweithwyr gofal a'u galluogi i gael buddion tebyg i weithwyr ieuchyd yn ystod yr argyfwng. Dywedodd hefyd, er y croesawyd y cyhoeddiad diweddar am fonws o £500 i weithwyr gofal, fod diffyg eglurhad o hyd ynghylch y gwaith o weinyddu'r cynllun a phryd y byddai'r unigolion yn cael arian, a bod angen mynd i'r afael â hyn.

Dywedodd EH fod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi gweld gostyngiad sylweddol o ran galwadau 999 arferol a bod trafodaethau ar waith gyda Llywodraeth Cymru i rannu negeseuon priodol er mwyn sicrhau na fydd unigolion yn ei gadael yn rhy hwyr gael cymorth am afiechydon neu gyflyrau difrifol. Roedd staff ychwanegol yn y gwasanaethau rheng flaen i helpu o ran cynnydd cysylltiedig yn nifer galwadau 111 ond roedd hyn yn sefydlogi ar hyn o bryd.

Soniodd JS am yr effaith y mae'r cyfyngiadau symud yn ei chael ar wasanaethau gofal gan fod llawer o ddarpariaeth naill ai'n cael ei rhewi neu ei lleihau. Pwysleisiodd yr effaith yr oedd hyn yn ei chael ar ofalwyr di-dâl, yr oedd nifer ohonynt yn ei chael hi'n anodd barhau. Dywedodd AB fod trafodaethau am hyn yn cael eu cynnal gyda darparwyr cymorth gofalwyr a bod yr ymatebion priodol yn cael eu nodi.

Dywedodd GT wrth y Bwrdd fod cell ddigartrefedd wedi'i sefydlu yng Ngheredigion sydd â'r nod o ddarparu llety i bobl ddigartref yn ystod y pandemig. Dywedodd hefyd fod cynnydd wedi bod eisoes mewn problemau ieuchyd meddwl ymhlith pobl digartref yn ystod y cyfnod hwn.

Rhoddodd JP y wybodaeth ddiweddaraaf am y sector cartrefi gofal a gwasanaethau gofal sylfaenol. Mae newidiadau wedi bod ym maes gofal sylfaenol o ran sut y mae gwasanaethau wedi'u darparu yn ystod y cyfnod hwn. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru ynghylch sut y byddai'r galw am ofal sylfaenol yn cael ei reoli wrth i'r gwasanaethau ddychwelyd i normalrwydd. Bu gostyngiad o 58% yn yr achosion posibl o ganser, a oedd yn peri pryder, sy'n golygu bod angen neges glir i sicrhau bod y cyhoedd yn dal i geisio cymorth ar gyfer salwch brys a chronig. Roedd partneriaeth gofal llygaid rhanbarthol hefyd wedi'i sefydlu gydag arbenigwyr llygaid i sicrhau bod y cyhoedd yn cael y gofal llygaid sydd ei angen arnynt.

Dywedodd JP hefyd fod 13 o gyfleusterau mewn cartrefi gofal ar hyn o bryd a oedd wedi cael achosion symptomatig neu achosion wedi'u cadarnhau o Covid-19. Roedd staff cartrefi gofal yn cael eu hyfforddi i gynnal profion yn ôl y gofyn.

Dywedodd RJ fod profi'n flaenoriaeth allweddol, gan ganolbwyntio ar dderbyniadau i'r ysbyty a'r gweithlu. Roedd system atgyfeirio yn cael ei datblygu ar lefel genedlaethol ar hyn o bryd. Erbyn hyn roedd nifer o unedau profi ar waith ar draws ardal Hywel Dda gan gynnwys uned ar gyfer profi drwy ffenest y car ym maes sioe Caerfyrddin i sicrhau bod profion ar gael i'r cyhoedd pe byddai ei angen arnynt. Dywedodd ein bod yn symud ymlaen i gam newydd o ran profion i ddatblygu cynllun ar sut i ymdopi â'r clefyd heintus drwy brofi ac olrhain yn y dyfodol.

Gofynnodd TH a oedd unrhyw gynlluniau i barhau i ddefnyddio apwyntiadau fideo neu Skype ar gyfer meddygon teulu ac ymarferwyr ar ôl y pandemig. Dywedodd JP fod yn rhaid nodi gwahanol ffyrdd o weithio yn gyflym ac y byddai defnyddio technoleg yn sicr yn fwy cyffredin yn y dyfodol.

Dywedodd MJP fod James Tyler a Karen Chandler, nad oeddent yn gallu mynychu'r cyfarfod, wedi cyflwyno papur yn rhoi gwybod am yr anhawster yr oedd unigolion ag Anableddau Dysgu yn ei wynebu yn ystod y pandemig. Rhoddodd grynodeb o'r rhain a nodwyd y pwyntiau allweddol.

6. Adroddiad diwedd blwyddyn Rhoi cymorth i Ofalwyr

Cyflwynodd AB yr adroddiad diwedd blwyddyn yn canolbwyntio ar weithgareddau a ariannwyd drwy gyllid Grant Gofalwyr Llywodraeth Cymru, sef £121K ar gyfer Gorllewin Cymru yn 2019-20. Roedd hyn yn rhan o weithgarwch ehangach a gefnogwyd hefyd gan y Gronfa Gofal Integredig. Byddai adroddiad blynyddol llawn yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn y dyfodol.

Nodwyd yr adroddiad.

Dywedodd JH fod dyfarniad 'Carer Confident' wedi'i ddyfarnu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ond pwysleisiodd fod hyn yn adlewyrchu cyfraniad yr holl bartneriaid yn y rhanbarth at agenda'r gofalwr.

Diolchodd JS am yr holl waith a wnaed i ofalwyr yn y rhanbarth ac am ei chynnwys fel cynrychiolydd gofalwyr yng ngwaith Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru.

7. Y cyfarfod nesaf:

22 Gorffennaf 2020, 9.30AM. Byddai trefniadau'r cyfarfod yn cael eu cadarnhau yn nes at y dyddiad.